

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio yn ein gweddïau am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Cofiw'n am Morfudd Williams (Henllan) sydd bellach wedi cael ei symud i'r Inffirmari, ac am Beryl Jones (Nantglyn) sydd yn Ysbyty Rhuthun ers rhai wythnosau. Cofiw'n hefyd am Gwynant Jones a Megan Evans (Llansannan) – y ddau wedi treulio ychydig ddyddiau yn Ysbyty Glan Clwyd yn ystod y pythefnos ddiwethaf ond sydd bellach wedi dod adref. Mae'n dda cael adrodd fod Gwyneth Wynne a Barbara Williams (Henllan) a Peter Jones (Groes) wedi cael dod adref hefyd erbyn hyn. Mae eraill o'r Ofalaeth sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanynt a chyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y byddant yn adnabod daioni Duw yn eu hamgylchynu.
- Llongyfarchiadau i Elgan ac Elen Jones (Saron) ar enedigaeth merch fach – Anni Glynn. Diolchwn i Dduw am y rhodd arbennig yma, a chyflwynwn y teulu i'w ofal.

I ddod

- GWASANAETH CAROLAU BRO ALED** yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Sul, Rhagfyr 13eg am 6.00. Paned a mins peis i ddilyn. Ymunwch â ni i ddathlu genedigaeth Crist!
- CYFARFOD BLYNYDDOL BLAENORIAID A DIACONIAID YR OFALAETH** yn Festri Llansannan nos Lun, Rhagfyr 14eg am 7.30.
- “AWN I FETHLEM”** – Gwasanaeth Carolau Cymdeithas Llansannan yn Eglwys Sant Sannan nos Lun, Rhagfyr 21fed am 7.30.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseia 9:2-7 (BCND tud.627 / BCN: tud.572)

Manylion Cyswllt

Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – ✉ sarah@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 29^{ain} Tachwedd 2015

Darlleniad y Dydd

Mathew 8: 23-27

(BCND tud.9 / BCN: tud.8)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da i chi gyd! Estynnwn groeso cynnes i bawb i'n hoedfaon ni heddiw. Dyma i chi fraint i gael dod at ein gilydd i gydaddoli a chyd-ddysgu am y Duw byw. Gobeithio y bydd ein calonnau ar agor i air Duw symud yn ein bywydau.

Dwi'n ymwybodol y bydd un o'r brawddegau diwethaf yna'n swnio'n rhyfedd iawn i bobl sydd ddim yn arfer mynd i'r eglwys. Mae'r cysyniad o addoli rhywbeth neu rhywun a dysgu mwy am ei g/chymeriad yn beth chwithig iawn i bobl sydd ddim yn credu yn Nuw. Ond dyna sy'n ein gwneud ni fel Cristnogion yn wahanol. Rydym ni'n addoli Duw. 'Da ni'n canu emynau o fawl iddo, yn gweddio a chyd-nabod ei gariad rhyfeddol a'i ras tuag atom. Rydan ni hefyd yn ymgeisio i ddysgu mwy amdano, boed hynny yn ein darlleniadau personol, neu trwy wrando ar bregethau dydd Sul, neu ar y wê. Yn bwysicach fyth, 'da ni yn adnabod Duw – mae gennym ni berthynas bersonol efo'r Creawdwr.

Mae hyd yn oed y weithred o fynd i'r capel bob dydd Sul yn rhywbeth mae'r byd o'n hamgylch ni yn ei weld yn od i ddweud y lleiaf! Mae Iesu'n dweud yn ei weddi yn Ioan 17 ein bod ni “ddim yn perthyn i'r byd fwy na dw i'n perthyn i'r byd”(adn 14 a 16). Mae Iesu ei hun yn cydnabod ein bod yn perthyn i Deyrnas arall – Teyrnas Nef. Rydan ni'n atebol i gyfreithiau gwahanol – cyfreithiau sanctaidd Duw. Ni ddylai fod yn syndod felly fod ein hagwedd, ein gweithgaredd a'n cymhelliant yn wahanol iawn i rai y byd o'n hamgylch. Mae'r byd yn annog gormodedd – yn enwedig o amgylch y Nadolig pryd cawn ein hannog i orwario, er enghraifft.

I ddweud y gwir, mae'r Beibl yn glir fod y gwahaniaethau yma yn arwain at gasineb a gelyniaeth tuag atom fel Cristnogion. "Os ydyn nhw wedi fy erlid i, byddan nhw'n eich erlid chithau hefyd. Os ydyn nhw wedi gwneud beth dw i'n ei ddweud wrthyn nhw, byddan nhw'n gwneud beth dych chi'n ei ddweud. ²¹ Byddan nhw'n eich trin chi felly am eich bod chi'n gweithio i mi. Y gwir ydy, dyn nhw ddim yn nabod Duw, yr Un sydd wedi fy anfon i." (Ioan 15:20-21). Dowch i ni beidio a bod â chywilydd o'n ffydd, na bod ag ofn sefyll yn erbyn dirmyg a gwawd.

Wrth alw ein hunain yn Gristnogion, rydan ni'n cyhoeddi ein bod ni'n ddilynwyr i'r Arglwydd Iesu Grist. Cafodd ef ei erlid gan bob rhan o'r gymdeithas – gelynyon yr Iddewon (Y Rhufeiniaid), y bobl oedd yn cadw'r gyfraith a thraddodiad Iddewig (Y Phariseaid) a hyd yn oed un o'i ffrindiau gorau (y disgyblion). Felly, fedrwn ninnau ddim disgwyl cael ein derbyn bob tro gan ein cymdeithas, ond cofiw'n fod gennym ni gryfder a chysur yn y ffaith fod ein ffydd mewn achubwr cariadus a phwerus sydd wedi profi'r brwydrau da ni'n eu teimlo.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled



Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 29^{ain}

- **Oedfa'r Fro ar Daith** am 6.00 – y tro hwn yn Llanefydd. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llun – 30^{ain}

- **Christian Viewpoint** – Cyfarfod Nadoligaidd “Spreading Good Cheer” gyda Lorna Sherwood yn Neuadd Gymunedol Bae Cinmel am 7.30. £3 yn cynnwys bwffe. Croeso i bawb.

Mawrth – 1^{af}

- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.

Mercher – 2^{il}

- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00 (paned am 7.30). Seiat agored i bawb yng nghwmni y Parch. Dafydd Job, Bangor. Bydd Dafydd yn trafod sut y dylai'r eglwys ymdrin yn fugeiliol gyda rhywioldeb.

Iau – 3^{ydd}

- **Cyfarfod Plant Llansannan** am 3.15.
- **Cwrdd Chwarter yr Annibynwyr** yn cyfarfod yn Llansannan am 7.00. Yn dilyn y materion busnes, bydd y Llywydd, y Parch. Aneurin Owen, yn ein hannerch ac yn ein arwain at Fwrdd y Cymun.

Gwener – 4^{ydd}

- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.

Sadwrn – 5^{ed}

- **Darlithoedd DAWN Cymru – Grŵp y Gogledd** yn cyfarfod yn y Bala – lleoliad i'w gadarnhau.
- **Hwyl yr Ŵyl** (oedran 7-11) – Dewch i ddysgu mwy am wir ystyr y Nadolig! Sinema, gemau gwirion, parti 'Dolig, a chreffft yng Ngholeg y Bala o 10.00-5.30. Cost £10 (£7 i'r ail blentyn). (Os nad ydych wedi archebu lle yn barod, cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk) ar fyrder, os gwelwch yn dda.)

Sul nesaf – 6^{ed}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah, a bydd Aneurin yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf – 6^{ed}

Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan

Sul yma – 29^{ain}

Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Sul nesaf – 6^{ed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa fedydd am 10.00 pryd y bydd Aled a Llinos Roberts yn cyflwyno Dewi Aled i gael ei fedyddio. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg, ac Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 29^{ain}

Bydd y Parch. Meurig Dodd yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Mawrth – 1^{af}

Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Ffestri Nantglyn am 7.30 gyda Helen Davies, Cefn Berain yn gosod blodau.

Sul nesaf – 6^{ed}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Mawrth – 1^{af}

Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Ffestri Nantglyn am 7.30 gyda Helen Davies, Cefn Berain yn gosod blodau.

Sul nesaf – 6^{ed}

Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Mawrth – 1^{af}

Cynhelir Cyfarfod Chwirydd Groes, Nantglyn a Pheniel yn Ffestri Nantglyn am 7.30 gyda Helen Davies, Cefn Berain yn gosod blodau.

Sul nesaf – 6^{ed}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 29^{ain}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Gwener – 4^{ydd}

Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!

Sul nesaf – 6^{ed}

Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yno am 2.00.